

# **SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024**

## **Cefndir a diben**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("**Gorchymyn 2018**"), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Diben dynodiad o'r fath yw galluogi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwyli'r cyrff hynny eu defnyddio i gael ei chynnwys mewn cynnig Cyllidebol gan y Senedd.

Effaith y Gorchymyn hwn, yn ôl ei Nodyn Esboniadol, yw dynodi 4 corff ychwanegol, newid enwau rhai cyrff dynodedig, a chynnwys y rhifau cwmni ar gyfer 10 corff a ddynodwyd yn flaenorol.

## **Gweithdrefn**

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## **Materion technegol: craffu**

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Er bod y Nodyn Esboniadol yn nodi mai effaith y Gorchymyn hwn yw dynodi 4 corff ychwanegol, mae'n ymddangos ei fod yn dynodi'r 5 corff newydd a ganlyn:

1. Comisiynydd Plant Cymru;
2. FWC IFW Debt GP Limited;
3. FWC SWIF Debt GP Limited;
4. NE Commercial Property (GP) Limited; a
5. Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.



Felly, gofynnir i'r Llywodraeth egluro a yw'r cyrff uchod yn ddynodiadau ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddibenion adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn y testun Cymraeg, cyfeirir at y corff "Transport for Wales" fel "Trafnidiaeth Cymru", ac yna nodir yr un rhif cwmni ag a geir yn y testun Saesneg. Mae hyn yn wahanol i'r cyfeiriad yn yr Atodlen honno at "Transport for Wales Rail Ltd", y cyfeirir ato o dan yr enw Saesneg yn unig yn y testun Cymraeg ac yn y testun Saesneg, ac yna o dan yr un rhif cwmni.

Fodd bynnag, nid yw'r manylion a nodir ar gyfer "Transport for Wales" ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys enw Cymraeg ar gyfer y cwmni. Yn hyn o beth, nid yw'n ymddangos bod yr enw Cymraeg "Trafnidiaeth Cymru" wedi'i gofrestru'n ffurfiol gyda Thŷ'r Cwmnïau pan newidiwyd enw'r cwmni hwn ym mis Ebrill 2016, er mai dyna'r enw masnachu a ddefnyddir ar ei gyfer yn Gymraeg.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth gadarnhau a ddylai'r corff dynodedig fod wedi'i restru fel "Transport for Wales" yn nhestun Cymraeg yr Atodlen, yn yr un modd â "Transport for Wales Rail Ltd" (sydd hefyd ag enw Saesneg yn unig ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau), o ystyried mai dyma'r dull arferol o gyfeirio at enwau cwmnïau cofrestredig yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth.

## **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

## **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn yr Atodlen newydd i'r Gorchymyn hwn, mae'r rhestr o gyrff dynodedig yn cynnwys "Prif Arolygydd **Ei Mawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", ac mae'r troednodyn cysylltiedig yn nodi bod y cyfeiriad at y corff hwn i'w ddehongli fel "Prif Arolygydd **Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru", oherwydd effaith adrannau 10 a 23 o Ddeddf Dehongli 1978.

Mewnosododd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 ("**Gorchymyn 2023**") gyfeiriad at "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yng Ngorchymyn 2018. Yn ei [adroddiad](#) ar Orchymyn 2023, mynegodd y Pwyllgor ei farn, yn dilyn marwolaeth Ei Diweddar Fawrhydi y Frenhines a'i holyniaeth gan y Brenin Charles III, ei bod yn ymddangos y dylid mewnosod "Prif Arolygydd



**Ei Fawrhydi** dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn ei le. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedodd y Llywodraeth fod y cyfeiriad wedi'i "fewnosod yn gywir".

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ffurf "Ei Fawrhydi" wrth gyfeirio at y corff hwn wedi ei defnyddio ers hynny mewn deddfwriaeth Gymreig arall, yn benodol mewn rhestr o awdurdodau contractio yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac mewn cyfeiriadau eraill a geir yn Nodiadau Esboniadol O.S. 2024/27 (Cy. 10) ac O.S. 2023/919 (Cy. 144).

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth esbonio'r ffaith y parheir i gyfeirio at "Ei Mawrhydi" yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

